Enw'r Darparwr/y Bartneriaeth: **Coleg Catholig Dewi Sant**	Awdurdod Lleol (os yw'n briodol): Ddim yn berthnasol
Nifer ac ystod oedran y dysgwyr: **1,550**	
Dyddiad arolygiad Estyn: **15 Tachwedd - 19 Tachwedd 2010**	

Gwybodaeth gyd-destunol fras am y darparwr/y bartneriaeth (seiliwch y wybodaeth hon ar adran cyd-destun yr adroddiad gan gynnwys nodweddion sy'n berthnasol i'r astudiaeth achos):

Sefydlwyd Coleg Catholig Dewi Sant gan Archesgobaeth Caerdydd yn goleg chweched dosbarth Catholig ym 1987. Mae'r coleg ar un campws yng ngogledd-ddwyrain Caerdydd. Mae Coleg Dewi Sant yn rhoi cyfleoedd dysgu i ryw 1,550 o ddysgwyr amser llawn. Mae bron yr holl ddysgwyr rhwng 16 a 19 oed. Nid oes dysgwyr rhan-amser. Mae ychydig o dan 80% wedi ymrestru ar lefel 3, gyda 60% o'r rhain ar gyrsiau Safon Uwch/UG a 27% o'r rhain yn cymysgu cyrsiau Safon Uwch/UG â chyrsiau galwedigaethol Lefel 3. Mae tua 18% wedi ymrestru ar lefel 2 a rhyw 3% ar lefel 1. Daw'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn y coleg o Gaerdydd, ond daw tua 13% o fannau pellach i ffwrdd, gan gynnwys Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Caerffili a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae tua 54% o'r dysgwyr yn ferched a 46% yn fechgyn. Daw tua 22% o'r dysgwyr o grwpiau lleiafrif ethnig. Daw tua 45% o'r dysgwyr o ardaloedd o amddifadedd addysgol. Mae pob dysgwr amser llawn yn astudio at Gymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Nodwch sut mae'r maes arfer ragorol/arfer sy'n arwain y sector, a nodwyd yn ystod yr arolygiad, yn berthnasol i gwestiwn allweddol, dangosydd ansawdd a/neu agwedd arbennig:

Cwestiwn Allweddol: 1 a 2
Dangosydd ansawdd: 1.1-Safonau, 2.1-Profiadau Dysgu.
Agwedd: 1.1.1, 1.1.4, 2.1.1, 2.1.2

Cyd-destun a chefndir i arfer ragorol/arfer sy'n arwain y sector:

Mae'r arweinyddiaeth yn y Coleg yn arddangos ymrwymiad cryf ar lefelau strategol a gweithredol at Gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Roedd rôl wedi ei nodi'n amlwg i Gymhwyster Bagloriaeth Cymru i gyfrannu at wella profiadau a pherfformiad y dysgwyr. O ganlyniad, mae dros1000 o ddysgwyr, carfan lefel 3 bron i gyd, bellach yn astudio ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar Safon Uwch. Mae'r model yn defnyddio'r cysyniad o gwricwlwm 'craidd' Coleg Dewi y mae pob dysgwr yn y coleg yn cael mynediad ato. Mae'r cwmpas yn cael ei fapio ar draws y craidd, tynnir tystiolaeth o feysydd y cwricwlwm ac ymgymerir â gwahaniaethu o ran y a'r cymhwyster yr anelir ato.

Mae Bagloriaeth Cymru ar Safon Uwch yn chwarae rhan allweddol wrth gynorthwyo gyda:

- hyrwyddo datblygiad cylfawn y dysgwyr;
- gosod targedau a arweinir gan y dysgwyr;
- gwaelodi a chyd-destunoli cyfleoedd i ddatblygu medrau;
- codi cyrhaeddiad medrau allweddol;
- datblygu cysylltiadau cryf rhwng darpariaeth y cwricwlwm a gofal bugeiliol;
- hyrwyddo diwylliant Cymru, gwasanaeth cymunedol, ESDGC ac Addysg yn Gysylltiedig â Gwaith; a
- sicrhau bod y craidd dysgu yn cael gwerth cyfartal

Ystyriwyd sawl model ar gyfer cyflwyno Cymhwyster Bagloriaeth Cymru gan y Coleg. Mae'r dulliau cyflwyno yn gwahaniaethu yn ôl lefel y cymhwyster. Roedd y model cyflwyno ar Safon Uwch wedi ei integreiddio gyda mentrau eraill gan y coleg, fel cynllun dysgu unigol electronig (e-GDU) a'r llwyfan dysgu ar sail Moodle. Gwnaed y datblygu ar y model trwy ymgynghori ag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys dysgwyr; staff addysgu; ymgynghorwyr addysg uwch a rhieni. Datblygwyd strategaeth i sicrhau bod rhieni yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi'r cymhwyster.

Mae'r model presennol yn canolbwyntio ar ddatblygiad y dysgwyr mewn nifer o ffyrdd; mae cyflwyno'r dysgwyr i amrywiaeth o arddulliau addysgu a dysgu yn galluogi i ddysgwyr ganolbwyntio a datblygu eu setiau medrau. Er enghraifft, mae gwersi cyflwyno thematig yn annog dysgwyr i ddatblygu medrau gwrando a thrafod, ac mae gwersi menter yn galluogi i ddysgwyr ddatblygu eu medrau gwaith tîm a hunanymwybyddiaeth. Mae rhaglen Bagloriaeth Cymru hefyd yn cyflwyno'r disgyblion i bynciau sy'n eu hannog i fod yn ddinasyddion mwy cyfrifol yn ogystal â hyrwyddo meysydd sy'n bwysig i Gymru ac economi Cymru. Mae'n bwysig nodi efallai na fyddai dysgwyr yn cael cyfleoedd o'r fath pe baent heb ymrestru ar y rhaglen. Yn ychwanegol, mae cyrhaeddiad medrau allweddol wedi codi oherwydd y cyfleoedd datblygu sydd wedi'u h'ymgorffori yn y model cyflwyno a'r gofyniad i fod yn hyfedr mewn meysydd a ystyrir yn bwysig gan sefydliadau addysg a chyflogwyr fel ei gilydd. Mae rhai dysgwyr wedi cyflawni medrau allweddol Lefel 4 a'r Prosiect Estynedig drwy gyflwyno rhaglen wedi'i chyfoethogi i ddysgwyr mwy galluog a dawnus.

Mae'r model presennol 'wedi ei ysbrydoli gan gyfanwaith' lle gyrrir yr addysgu a'r dysgu ar bynciau amrywiol gan arddulliau dysgu penodol, gan arwain at y dysgwr yn cael profiad addysgu a dysgu trosfwaol sy'n ysgogol ac yn amrywiol. Rhennir y cydrannau craidd yn themâu, ac mae arweinwyr tîm arbenigol yn cynhyrchu adnoddau sy'n mynd i'r afael â themâu o'r fath ac sy'n cynnig cymorth a chanllawiau i athrawon Cymhwyster Bagloriaeth Cymru wrth iddynt ei gyflwyno, yn ogystal â monitro ansawdd y cyflwyno a'r asesu. Mae cyflwyno Bagloriaeth Cymru yn cael ei gefnogi'n llawn gan y llwyfan dysgu ar sail Moodle, lle gall dysgwyr ymgymryd â dysgu ar sail arbrofi. Yn ychwanegol, mae'r Moodle yn caniatáu i ddysgwyr ac athrawon olrhain y broses asesu. Mae Medrau Allweddol a Medrau Hanfodol Cymru wedi eu hintegreiddio'n llawn ym mhob thema/modiwl a gall dysgwyr gyflwyno tystiolaeth a chael adborth ffurfiannol trwy lwyfan Moodle. Mae gan Moodle Bagloriaeth Cymru gefnogaeth medrau sylfaenol yn greiddiol iddo; esboniadau a gallu i archebu sesiynau cefnogaeth un wrth un, pan fydd angen. Mae'r model yn dangos ei fod yn un llwyddiannus dros ben ac mae'n sicrhau profiad cyson i bob dysgwr, digon o gefnogaeth a chanllawiau i'r cyflwynwyr a thryloywder o bersbectif ansawdd.

Disgrifio natur strategaeth neu weithgaredd a nodwyd yn arfer ragorol/arfer sy'n arwain y sector:

Peilotiwyd nifer o fodelau cyn mabwysiadu'r model cyflwyno ar gyfer Safon Uwch. Yn dilyn adolygiad helaeth (yn cynnwys dadansoddiad o ddata meintiol, adborth gan ddysgwyr a chyflwynwyr, e-bedagogaeth addysgol, adborth gan safonwyr, cyfeirio at arfer orau a chael cyngor gan arbenigwyr Moodle), cynigiwyd y model cyflwyno presennol yn haf 2009. Y prif feysydd i gael sylw a gododd o'r adolygiad hwn oedd yr angen i wella cymhlethdod ac amrywioldeb yr arddulliau addysgu a'r deunyddiau, gwella cysondeb o ran ansawdd (pan oedd nifer fawr o gyflwynwyr yn cymryd rhan) a chanolbwyntio ar sut gellid defnyddio technoleg yn fwy effeithiol. Mae'r model presennol wedi ymdrin â phob un o'r meysydd hyn. Serch hynny, mae nifer o welliannau yn cael eu hystyried i wella'r profiad dysgu ymhellach. Er enghraifft, cynnwys mwy o nodweddion Moodle rhyngweithiol ac arloesol fel gweithdai, fforymau a phodlediadau yn ogystal â gwella ansawdd cyflwyno gwersi.

Yn ganolog i fireinio a datblygu'r fenter y mae cyfraniad gweithredol y cyfranddalwyr wrth osod blaenoriaethau ar gyfer gwella parhaus. Mae cynnwys Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn llawn yn

fframwaith ansawdd y Coleg yn cynorthwyo wrth ddarparu adborth ar gyfer gwella parhaus. Yn dilyn yr adborth eleni gan ddysgwyr, rydym wedi penderfynu gosod pwyslais o hyd ar gyflwyno ac asesu'r rhaglen drwy ddeunyddiau a gweithgareddau ar-lein a byddwn yn cynyddu'r pwyslais ar asesu ffurfiannol, olrhain a monitro ar-lein. Mae dysgwyr wedi gwerthfawrogi'r cynnydd yn amrywiaeth yr ymagwedd yn y cymhwyster. O ganlyniad, mae ystod o opsiynau ar gael i ddysgwyr megis ieithoedd tramor modern, unedau arweinyddiaeth a rheolaeth a'r unedau cymwysterau cyn Prifysgol gan Gaergrawnt. Bydd yr ymagweddau arloesol hyn, ac eraill, yn parhau i gael eu datblygu.
Pa effaith mae'r gwaith hwn wedi'i chael ar ansawdd y ddarpariaeth a safonau'r dysgwyr: Mae cyfaint yr ymdriniaeth â medrau allweddol a chyrhaeddiad medrau allweddol wedi codi'n ddramatig. Er enghraifft, yn 2009/10 fe wnaeth y cyfraddau llwyddo mewn Cyfathrebu godi o 61.6% i 75.4%; cododd Gweithio Gydag Eraill o 58.3% i 86.8% a chyfradd llwyddo Gwella'ch Dysgu a'ch Perfformiad eich Hunan o 76.9% i 87.9%. Mae mesuriadau lles a datblygu deallusrwydd emosiynol wedi codi o'r herwydd o ganlyniad i'r ymagwedd at y cymhwyster.